Y Comisiwn Etholiadol

Etholiadau Senedd Ewrop

ym Mhrydain Fawr

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 2b o 6 - Sefyll fel ymgeisydd plaid a chanllawiau i bleidiau cofrestredig sy'n cyflwyno rhestrau plaid

Mawrth 2019

Dim ond i etholiadau Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr ar 23 Mai 2019 y mae'r ddogfen hon yn berthnasol. Gellir dod o hyd i'n canllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiadau eraill ar ein gwefan: http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent.

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol 2
Cwblhau'r papurau enwebu 3
Cyflwyno'r papurau enwebu 7
Yr ernes 9
Newid y rhestr o ymgeiswyr 10
Archwilio papurau enwebu ymgeiswyr eraill 10
Gwrthwynebu enwebiadau 11
Tynnu yn ôl 13
Beth sy'n digwydd ar ôl i'r enwebiadau gau? 13
Penodi asiantiaid etholiadol ac asiantiaid eraill 14
Ymgeisydd yn marw 21
Enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin 22
Ymgeiswyr sy'n ddinasyddion yr UE 23

2

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar sefyll fel ymgeisydd rhestr plaid yn etholiad Senedd Ewrop yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ar 23 Mai 2019, yn ogystal â chanllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n cyflwyno rhestr plaid. Mae gwybodaeth atodol, fydd yn berthnasol i rai ymgeiswyr rhestr plaid yn unig, ar gefn y ddogfen hon. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni o fewn y ddogfen hon, neu drwy glicio ar y bennod yn y dudalen gynnwys.

Rydym ni yma i help, felly cysylltwch â'ch swyddfa leol y Comisiwn os oes gennych unrhyw gwesitynau. Mae ein manylion cyswllt ar ein dogfen trosolwg.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd rhestr plaid. Rydym yn defnyddio 'rhaid' i gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol a 'dylech' ar gyfer arfer a argymhellir.

Rydym wedi cynnwys y dyddiadau cau perthnasol drwy gydol y ddogfen, ond gallwch ddod o hyd i amserlen etholiad ar ein gwefan sy'n dangos yr holl ddyddiadau allweddol.

O ganlyniad i ŵyl y banc yn Gibraltar ar 29 Ebrill ac 1 Mai 2019, bydd rhai dyddiadau cau etholiadol yn rhanbarth De-orllewin Lloegr yn wahanol i'r dyddiadau cau mewn mannau eraill ym Mhrydain Fawr. Lle mai dyma yw'r achos, rydym wedi cynnwys dyddiad cau De-orllewin Lloegr mewn cromfachau ynghyd â'r dyddiad cau ar gyfer gweddill Prydain Fawr.

Cwblhau'r papurau enwebu

1.1 Mae'n rhaid i blaid gofrestredig sydd am frwydro etholiad Senedd Ewrop ar 23 Mai 2019 dalu ernes o £5,000 a chyflwyno set gyfan o bapurau enwebu i'r man a osodir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 os ydych yn brwydro rhanbarth De-orllewin Lloegr)**. Mae'r dyddiad cau wedi'i osod mewn deddf ac ni ellir ei newid am unrhyw reswm.

1.2 Y dyddiad cyntaf y bydd pleidiau cofrestredig yn gallu cyflwyno papurau enwebu, yn ogystal â'r amserau a'r mannau i'w danfon, yn cael eu gosod yn yr hysbysiad swyddogol o etholiad a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.3 Bydd angen i'r ffurflenni canlynol gael eu cyflwyno:

- y ffurflen enwebu (gweler 1.12)
- y rhestr o ymgeiswyr (gweler paragraff 1.15)
- y cydsyniadau i enwebu wedi'u llofnodi gan bob ymgeisydd ar y rhestr (gweler paragraff **1.17**)

1.4 Gallwch hefyd wneud cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y blaid (cyn belled â bod y blaid am gael arwyddlun ar y papur pleidleisio) (gweler paragraff **1.23**).

1.5 Hefyd, mae'n rhaid i ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw dinesydd Prydeinig, Gwyddelig, dinesydd o Malta neu Cyprus) gyflwyno datganiad o'u cymhwysedd i sefyll mewn etholiad (gweler paragraff **1.9**).

1.6 Gall Swyddogion Enwebu gael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Mae manylion cyswllt i'w cael ar ein gwefan. Ar y llaw arall, mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu set o bapurau enwebu y gallai Swyddogion Enwebu eu defnyddio.

1.7 Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gallu cynnig gwirio'ch papurau enwebu yn anffurfiol cyn i chi eu cyflwyno.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

4

1.8 Nodwch fod yn rhaid i unrhyw wybodaeth a ddarperir ar eich papur enwebu fod yn wir hyd eithaf eich gwybodaeth. Mae'n drosedd darparu datganiad ffug ar eich papurau enwebu. Gallai darparu datganiad ffug annilysu eich ethol, a gellid hefyd cael dirwy a/neu garchar. Yng Nghymru a Lloegr mae'r ddirwy yn ddiderfyn; yn yr Alban mae hyd at £10,000 (neu ddirwy benagored os ceir yn euog ar dditiad).

Gofynion ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr sy'n ddinasyddion yr UE

1.9 Os ydych yn ddinesydd yr UE (heblaw dinesydd Prydeinig, Gwyddelig, dinesydd o Malta neu Cyprus), sydd am sefyll ar ran plaid gofrestredig, mae'n rhaid i chi wneud datganiad fel rhan o'ch enwebiad yn nodi, ymysg pethau eraill:

- nad ydych yn sefyll fel ymgeisydd i'r un etholiad Senedd Ewrop mewn unrhyw aelod-wladwriaeth arall yr UE, ac
- nad ydych wedi'ch gwahardd rhag sefyll mewn etholiad yn yr Aelod-wladwriaeth yr UE yr ydych yn genhedlig ohoni, o ganlyniad i benderfyniad barnwrol neu weinyddol

1.10 I gael rhagor o fanylion, gan gynnwys y dyddiad cau ar gyfer gwneud datganiad, gweler paragraff **1.107.**

Y ffurflen enwebu

1.11 Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ffurflen enwebu gael ei gwblhau'n Saesneg, neu yn Gymraeg neu'n Saesneg yng Nghymru. Bydd peth o'r wybodaeth sy'n ymddangos ar y papur pleidleisio yn cael ei gymryd o'r papur enwebu.

1.12 Mae'n rhaid i'r ffurflen enwebu:

- nodi enw'r blaid yn llawn fel y mae wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn (mae'n rhaid iddo fod yn unol fel y mae ar ein cofrestr)

- gynnwys datganiad bod y blaid wedi'u henwebu gan neu ar ran Swyddog Enwebu'r blaid, ac wedi'i lofnodi gan y person sy'n gwneud y datganiad hwnnw

- gynnwys rhestr ddilys o ymgeiswyr y blaid yn y rhanbarth (gweler paragraff **1.15**)

1.13 Mae defnyddio disgrifiad plaid yn ddewisol: gall y blaid wneud cais i un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid i ymddangos ar y papur pleidleisio, yn ogystal ag enw cofrestredig y blaid. Gall pleidiau yng Nghymru ddefnyddio'r fersiwn Cymraeg, y fersiwn Saesneg neu'r ddau o enw'r blaid neu'r disgrifiad, cyn belled â'u bod wedi'u cofrestru gyda ni.

1.14 Dylid cymryd gofal wrth gwblhau'r ffurflen enwebu. Mae'n rhaid i enw'r blaid ac unrhyw ddisgrifiad a ddefnyddir ar y ffurflen enwebu fod yn union yr un peth ag enw'r blaid/disgrifiad ar gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn. Os nad yw'n union yr un peth, bydd yr enwebiad yn cael ei wrthod.

Rhestr o ymgeiswyr

1.15 Mae'n rhaid i'r rhestr o ymgeiswyr:

- roi enwau llawn, ac os dewisir, enwau a ddefnyddir yn gyffredin (gweler paragraff **1.101**) pob ymgeisydd. Mae enw llawn ymgeisydd yn golygu eu henw cyntaf ac unrhyw enwau eraill yn llawn. Gallai defnyddio blaenlythrennau yn unig arwain i'r papur yn cael ei wrthod. Hefyd, ni ddylid defnyddio rhagddodiaid megis Mr, Mrs, Dr neu Cyngh fel rhan o enw'r ymgeisydd. Mae'r un peth yn berthnasol i ôl-ddodiaid. Fodd bynnag, os oes gan yr ymgeisydd deitl, gallant ei ddefnyddio fel eu henw llawn. Er enghraifft, os mai eu henw yw Joseph Smith ond mai eu teitl etifeddol yw Joseph Avon, yna gallant ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel eu henw llawn.

- roi cyfeiriad cartref llawn pob ymgeisydd

Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

Mae enwau pleidiau cofrestredig a disgrifiadau cofrestredig i'w cael ar ein cofrestr ar-lein:

https://pefonline.electoralcommission.org.uk

Mae fersiynau Cymraeg o enwau pleidiau wedi'u rhestri ar y wefan o dan 'enw arall' ac mae fersiynau Cymraeg o ddisgrifiadau wedi'u rhestri i'r dde o'r disgrifiad o dan 'cyfieithiad(au)'.

1.16 Ni ddylai'r nifer o ymgeiswyr ar y rhestr fod yn fwy na'r nifer o ASEau i'w hethol yn y rhanbarth etholiadol.

Cydsynio i enwebu

1.17 Mae'n rhaid i bob ymgeisydd ar restr plaid hefyd gydsynio'n ffurfio i'w henwebu yn ysgrifenedig.

1.18 Er yn y mwyafrif o achosion bydd y cydsyniadau i enwebu gan bob ymgeisydd yn cael eu casglu gan y Swyddog Enwebu, neu rywun sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar eu rhan, cyn eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, gallwch gyflwyno'r ffurflen hon yn uniongyrchol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.19 Ym mhob achos, rhaid iddynt gael eu cwblhau a'u derbyn gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, ac felly dylech gysylltu gyda'r Swyddog Enwebu neu pwy bynnag sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar eu rhan i gadarnhau sut y maent am drefnu hyn yn ymarferol.

1.20 Mae cynnwys y cydsyniad i enwebu wedi'i osod yn gyfreithiol. Ar y ffurflen bydd gofyn i chi nodi:

- eich dyddiad geni
- enw'r blaid yr ydych yn sefyll drosti
- eich bod yn ymwybodol o ddarpariaethau Adran 10 Deddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002 (h.y. y gwaharddiadau)
- hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred nad ydych wedi'ch gwahardd rhag cael swydd ASE.

1.21 Yn ogystal i beidio cael eich gwahardd, mae'n rhaid i chi hefyd fodloni'r holl gymwysterau i sefyll mewn etholiad, fel a ddisgrifir yn Rhan 1: Ydych chi'n gallu sefyll mewn etholiad?

1.22 Ni chewch lofnodi'r ffurflen cydsynio yn gynt nag un mis cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich papurau enwebu. Mae hyn yn golygu mai'r cynharaf y gallwch lofnodi'r cydsyniad fydd **25 Mawrth 2019 (24 Mawrth 2019 yn rhanbarth De-orllewin Lloegr).** Mae'n rhaid cael tyst i'ch llofnod, ac mae'n rhaid i'r tyst lofnodi'r ffurflen a rhoi eu henw llawn a'u cyfeiriad.

Does dim cyfyngiadau ar bwy all fod yn dyst i'r cydsyniad i enwebiad.

Cais i ddefnyddio arwyddlun ar y papur pleidleisio

Gellir gweld neu lawrlwytho arwyddluniau o'n cofrestr o bleidiau gwleidyddol.

1.23 Gall pleidiau cofrestredig wneud cais bod un o arwyddluniau swyddogol y blaid yn cael ei argraffu ar y papur pleidleisio.

1.24 Mae'n rhaid i'r Swyddog Enwebu neu rywun sydd wedi'u hawdurdodi ar eu rhan wneud y cais am arwyddlun yn ysgrifenedig. Mae'n rhaid i'r cais hwn gael ei dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn yr holl bapurau enwebu eraill, h.y. erbyn **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn etholiad rhanbarth De-orllewin Lloegr)**. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn darparu ffurflen y gellid ei defnyddio i wneud y cais hwn, neu, gallant ddefnyddio'r ffurflen cais am arwyddlun a gynhyrchir gan y Comisiwn.

1.25 Dylai'r cais nodi enw'r blaid wleidyddol a disgrifiad yr arwyddlun i'w ddefnyddio, fel a restrir ar gofrestr pleidiau gwleidyddol y Comisiwn. Ni ellir addasu arwyddluniau cofrestredig mewn unrhyw fodd.

Cyflwyno'r papurau enwebu

1.26 Dylech gysylltu â'ch Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol cyn gynted â phosibl i weld pa drefniadau sydd yn eu lle ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.

1.27 Y dyddiad cau i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol dderbyn yr holl bapurau enwebu a'r ernes yw **4pm** ar **25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 os ydych yn sefyll yn rhanbarth De-orllewin Lloegr)**.

1.28 Bydd y dyddiad cyntaf y gellir cyflwyno papurau enwebu, yn ogystal â'r amserau a'r mannau i'w danfon, yn cael eu gosod yn yr hysbysiad swyddogol o etholiad a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.29 Dim ond yn ystod diwrnod gwaith rhwng 10 a 4pm y gellir danfon papurau enwebu, gan gynnwys datganiad ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw dinesydd Prydeinig, Gwyddelig neu ddinesydd Malta neu Cyprus), ac mae'n rhaid eu danfon i'r man a nodir ar yr hysbysiad o etholiad.

1.30 Mae'n rhaid i'r ffurflen enwebu a'r rhestr o ymgeiswyr gael eu danfon yn bersonol gan y Swyddog Enwebu neu gan berson a awdurdodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar eu rhan.

1.31 Does dim cyfyngiadau ar bwy all ddanfon y ffurflen cydsyniad i enwebu, a lle bo gofyn datganiad ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw dinesydd Prydeinig, Gwyddelig, dinesydd Malta neu Cyprus). Yn y mwyafrif o achosion, byddant yn cael eu casglu gan y Swyddog Enwebu neu'r person awdurdodedig, fydd wedyn yn eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ynghyd â'r ffurflen enwebu a'r rhestr o ymgeiswyr. Dylech siarad gyda'ch Swyddog Enwebu yn gynnar i gadarnhau sut y byddant yn cael eu cyflwyno'n ymarferol.

1.32 Gall y Swyddog enwebu neu'r person awdurdodedig hefyd wneud cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y blaid (cyn belled â bod y blaid am gael arwyddlun ar y papur pleidleisio) (gweler paragraff 1.21). Gellir danfon y ffurflen hon yn bersonol neu ei phostio.

1.33 Ni cheir cyflwyno unrhyw rai o'r ffurflenni drwy ffacs, e-bost nag unrhyw fodd electronig arall. Yr unig eithriad yw pan fod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn fodlon, oherwydd absenoldeb yr ymgeisydd o'r DU neu Gibraltar, nad yw hi wedi bod yn rhesymol ymarferol iddynt roi eu cydsyniad yn ysgrifenedig. Yn yr achos hwn, gellid cyflwyno'r cydsyniad i enwebu drwy ffacs neu e-bost. Does dim angen tyst i'r cydsyniad yn yr achos hwn.

1.34 Os ydych yn disgwyl bod tu allan i'r DU (neu Gibraltar), dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol i esbonio'r sefyllfa. Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fod yn fodlon y byddwch y tu allan i'r DU (neu Gibraltar) ac yn methu cydsynio yn y modd arferol cyn derbyn y dull hwn o gyflwyno'r cydsyniad.

1.35 Dylai'r Swyddog Enwebu neu berson awdurdodedig drafod yr opsiwn o wirio'r papurau enwebu yn anffurfiol ymlaen llaw gyda'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Bydd hyn yn rhoi amser i'r blaid i gyflwyno papurau enwebu newydd pe bai camgymeriadau yn y set gyntaf. Mae manylion cyswllt Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gael ar ein gwefan.

1.36 Wedi i'r papurau enwebu gael eu cyflwyno, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cadarnhau p'un a yw enwebiad y blaid yn ddilys ai peidio.

1.37 Os, wedi i'r papurau enwebu gael eu cyflwyno, nad yw'r blaid bellach am sefyll yn yr etholiad, gall dynnu yn ôl, cyn belled â'u bod yn gwneud erbyn **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 23 Ebrill yn sefyll yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**. I gael rhagor o fanylion ar dynnu yn ôl, gweler paragraff **1.56**

1.38 Does dim darpariaeth i ymgeiswyr rhestr plaid sydd am dynnu yn ôl.

Yr ernes

1.39 Er mwyn i enwebiad y blaid fod yn ddilys, mae'n rhaid rhoi ernes o £5,000 ar ran y blaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, h.y. erbyn **2pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm) ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**. Gellir gwneud yr ernes gan ddefnyddio:

- arian parod (arian Prydeinig yn unig)
- drafft bank y DU neu Gibraltar

1.40 Gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd dderbyn ernes a wneir gan siec cymdeithas adeiladu, cerdyn credyd neu ddebyd neu drosglwyddiad electronig. Fodd bynnag, gallant hefyd wrthod gwneud. Os yw'r blaid am dalu yn un o'r ffyrdd hyn, dylai'r Swyddog Enwebu neu berson awdurdodedig ar eu rhan drafod gyda'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol cyn gynted â phosibl i weld p'un a yw'r dull o dalu yn dderbyniol ai peidio.

1.41 Mae'n rhaid i'r person sy'n danfon yr ernes yn cael ei danfon roi eu henw a'u cyfeiriad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (heblaw lle maent wedi'u penodi fel asiant y blaid ac felly wedi darparu eu cyfeiriad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol eisoes).

1.42 Ar ôl yr etholiad, bydd yr ernes yn cael ei dychwelyd os yw'r blaid yn cael mwy na 2.5% o'r cyfanswm nifer o bleidleisiau dilys yn y rhanbarth etholiadol.

Newid y rhestr o ymgeiswyr

1.43 Dim ond drwy gyflwyno ffurflen enwebu newydd a rhestr o ymgeiswyr erbyn y dyddiad cau ar gyfer danfon papurau enwebu, h.y. **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)** y gellir newid rhestrau o ymgeiswyr - p'un a i ychwanegu neu dynnu enwau, neu i newid trefn yr ymgeiswyr.

1.44 Mae'n rhaid cyflwyno cydsyniad i enwebu pob ymgeisydd ar y rhestr ar yr amser hwn hefyd. Ni fydd angen unrhyw ymgeisydd oedd ar y rhestr wreiddiol ac sydd wedi cyflwyno eu cydsyniad i enwebu i ailgyflwyno eu cydsyniad os gwneir newidiadau i restr y blaid.

1.45 Bydd y ffurflen enwebu newydd a'r rhestr o ymgeiswyr yn ailosod y rhai a ddanfonwyd yn flaenorol.

1.46 Dylai unrhyw blaid sy'n ystyried hyn gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol am fwy o gyngor.

Archwilio papurau enwebu ymgeiswyr eraill

1.47 Dim ond rhai pobl benodol sydd â hawl archwilio papurau enwebu a rhestrau o ymgeiswyr plaid a chyflwyno gwrthwynebiadau iddynt yn ystod yr amser ar gyfer darparu papurau enwebu (ond nid ar ôl hynny), sef:

- ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys (un ai fel person ar restr plaid gofrestredig neu fel person sy'n sefyll wedi'u henwebu fel ymgeisydd annibynnol)
- asiant etholiadol plaid wleidyddol gofrestredig wedi i'w ffurflen enwebu gael ei danfon
- asiant etholiadol ymgeisydd unigol wedi i'w ffurflen enwebu gael ei danfon
- person sydd ag awdurdodiad ysgrifenedig i ddanfon papur enwebu

1.48 Gall cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac un person arall a ddewisir gan ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys hefyd fod yn bresennol pan ddanfonir papurau enwebu, ond ni chânt archwilio na gwneud unrhyw wrthwynebiadau i'r ffurflenni enwebu a'r rhestr o ymgeiswyr plaid.

Gwrthwynebu enwebiadau

1.49 Gellir gwneud gwrthwynebiadau i ddilysrwydd unrhyw ffurflen enwebu **ar 25 Ebrill 2019 (24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**. Mae'r terfyn amser i wneud gwrthwynebiad yn dibynnu ar pryd danfonir y ffurflen enwebu a/neu'r rhestr.

Amserlen ar gyfer gwrthwynebiadau ymhob rhanbarth etholiadol, ag eithrio De-orllewin Lloegr.

Enwebiadau a ddanfonwyd hyd at 4pm ar 24 Ebrill 2019

1.50 Mae'n rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu neu restr o ymgeiswyr a ddanfonwyd hyd at a chan gynnwys 4pm ar 24 Ebrill 2019 gael eu gwneud **rhwng 10am a 12 canol dydd** ar **25 Ebrill 2019**

Enwebiadau a ddanfonwyd ar ôl 4pm ar 24 Ebrill 2019

1.51 Mae'n rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu neu restr o ymgeiswyr a ddanfonwyd ar ôl 4pm ar 24 Ebrill 2019 gael eu gwneud **rhwng 10am a 5pm** ar **25 Ebrill 2019.** Mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiadau ar neu'n syth wedi amser danfon yr enwebiad.

Gwrthwynebiadau ar sail bod ymgeisydd unigol wedi'i garcharu am flwyddyn neu fwy

1.52 Yn yr achosion prin lle mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cyhoeddi hysbysiad yn gwahodd gwrthwynebiadau ar sail bod ymgeisydd unigol wedi'i wahardd oherwydd eu bod wedi'u carcharu gyda dedfryd o flwyddyn neu fwy, gellir gwneud gwrthwynebiad **rhwng 10am a 4pm** ar **26 Ebrill 2019**.

Amserlen ar gyfer gwrthwynebiadau ymhob rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr

Enwebiadau a ddanfonwyd hyd at 4pm ar 23 Ebrill 2019

1.53 Mae'n rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu neu restr o ymgeiswyr a ddanfonwyd hyd at a chan gynnwys 4pm ar 23 Ebrill 2019 gael eu gwneud **rhwng 10am a 12 canol dydd** ar **24 Ebrill 2019**

Enwebiadau a ddanfonwyd ar ôl 4pm ar 24 Ebrill 2019

1.54 Mae'n rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu neu restr o ymgeiswyr a ddanfonwyd ar ôl 4pm ar 24 Ebrill 2019 gael eu gwneud **rhwng 10am a 12 canol dydd** ar **24 Ebrill 2019.** Mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiadau ar neu'n syth wedi amser danfon yr enwebiad.

Gwrthwynebiadau ar sail bod ymgeisydd unigol wedi'i garcharu am flwyddn neu fwy

1.55 Yn yr achosion prin lle mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cyhoeddi hysbysiad yn gwahodd gwrthwynebiadau ar sail bod ymgeisydd unigol wedi'i wahardd oherwydd eu bod wedi'u carcharu gyda dedfryd o flwyddyn neu fwy, gellir **gwneud gwrthwynebiad rhwng 10am a 4pm ar 25 Ebrill 2019.**

Tynnu yn ôl

1.56 Gall y Swyddog enwebu neu berson awdurdodedig yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu i weithredu ar eu rhan dynnu enwebiad yn ôl drwy lofnodi a chyflwyno hysbysiad tynnu yn ôl. Does dim cyfyngiadau ar bwy all gyflwyno'r hysbysiad, ond mae'n rhaid ei ddanfon yn bersonol. Mae'n rhaid i'ch tyst hefyd lofnodi'r hysbysiad. Gellir cael hysbysiad tynnu yn ôl gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu gellir ei lawrlwytho o'n gwefan.

1.57 Y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwau yn ôl yw **4pm ar 25 Ebrill 2019** (**4pm ar 23 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr**).

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r enwebiadau gau?

1.58 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyhoeddi datganiad o bleidiau a phersonau a enwebwyd ar gyfer y rhanbarth etholiadol ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer gwrthwynebu papurau enwebu (**5pm ar 25 Ebrill 2019 (5pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**), cyn belled nad oes unrhyw wrthwynebiadau. Yna byddant yn darparu copi i bob Swyddog Canlyniadau Lleol yn y rhanbarth etholiadol, fydd yn cyhoeddi'r datganiad yn lleol.

1.59 Bydd y datganiad yn cynnwys:

- enw pob plaid gofrestredig sy'n sefyll, a rhestr o'r ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran y blaid

- enwau'r rheiny sy'n sefyll wedi'u henwebu fel ymgeiswyr unigol
- enwau unrhyw bleidiau neu bersonau nad ydynt bellach sy'n sefyll wedi'u henwebu, os oes rhai (h.y. enwebiadau annilys ac wedi'u tynnu yn ôl), gyda'r rheswm pam nad ydynt bellach yn sefyll
- cyfeiriad cartref pob ymgeisydd, gan gynnwys y rheiny ar restr plaid
- disgrifiadau (os oes) unrhyw bleidiau
- lle bo gofyn, y disgrifiad Independent a/neu Annibynnol yng Nghymru wrth fanylion ymgeiswyr unigol

1.60 Os yw ffurflen enwebu neu restr o ymgeiswyr yn rhoi enw cyntaf neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer ymgeisydd yn ogystal â'u henw go-iawn, bydd y datganiad yn dangos enw cyntaf neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin y person (beth bynnag fo'r achos), heblaw na chaniateir yr enw gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yn hytrach na'u henw go-iawn.

Penodi asiantiaid etholiadol ac asiantiaid eraill

I gael rhagor o wybodaeth am wariant ymgeiswyr gweler:

Rhan 3: Gwariant a rhoddion ar gyfer ymgeiswyr unigol

1.61 Mae'n rhaid i blaid sy'n sefyll mewn etholiad gael asiant etholiadol. Ar gyfer pleidiau sy'n sefyll mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol, mae cyfeiriadau at 'asiant etholiadol' yn y canllawiau hyn yn golygu yr asiant etholiadol cenedlaethol, oni nodir yn wahanol.

1.62 Does dim cymwysterau penodol eu hangen i fod yn asiant etholiadol. Fodd bynnag, ni all y bobl ganlynol fod yn asiantiaid etholiadol yn ôl y gyfraith:

- unrhyw Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Swyddog Canlyniadau Lleol yn etholiad Senedd Ewrop
- unrhyw swyddog neu glerc a benodwyd yn unol â rheolau etholiad Senedd Ewrop (mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, Swyddogion Llywyddu)

- unrhyw bartner neu glerc unrhyw un o'r personau uchod

1.63 Mae'r broses o benodi asiant etholiadol yn wahanol yn ddibynnol ar p'un a bod y penodiad ar gyfer plaid wleidyddol gofrestredig sy'n sefyll mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol na phlaid wleidyddol gofrestredig sy'n sefyll mewn un rhanbarth etholiadol yn unig (gweler isod).

Pleidiau sy'n sefyll mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol

Asiantiaid etholiadol cenedlaethol

1.64 Mae'n rhaid i unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig sy'n sefyll mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol gael asiant etholiadol cenedlaethol. Mae'r asiant etholiadol cenedlaethol yn asiant etholiadol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol lle mae gan y blaid restr o ymgeiswyr. Dim ond un asiant etholiadol cenedlaethol all bob plaid gael ar un amser.

1.65 Mae'n rhaid i'r asian etholiadol cenedlaethol un ai fod y Swyddog Enwebu ar gyfer y blaid, neu berson arall wedi'u datgan yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu neu gan rywun arall ar ran y Swyddog Enwebu.

1.66 Os nad y Swyddog Enwebu yw'r asiant etholiadol cenedlaethol a benodir, mae'n rhaid i'r datganiad gael ei wneud gan y Swyddog Enwebu neu ar ei ran ac wedi'i lofnodi gan yr asiant etholiadol cenedlaethol, neu gyda datganiad ysgrifenedig yn datgan derbyn hyn wedi'i lofnodi gan yr asiant etholiadol cenedlaethol yn cyd-fynd ag ef.

1.67 Yr asian etholiadol cenedlaethol yw'r person sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am yr ymgyrch etholiadol, heblaw am reolaeth ariannol yr ymgyrch (cyfrifoldeb trysorydd y blaid/swyddog ymgyrchoedd cofrestredig), ym mhob rhanbarth etholiadol y mae'r blaid yn sefyll ynddi. Mae hawl gan asiantiaid etholiadol cenedlaethol hefyd hawl i arsylwi amryw rannau o'r broses etholiadol, gan gynnwys cynnal y bleidlais mewn gorsafoedd pleidleisio, sesiynau agor pleidleisiau post, a gwirio a chyfrif y pleidleisiau.

Sut caiff asiantiaid etholiadol cenedlaethol eu penodi?

1.68 Rhaid i'r Swyddog Enwebu ar gyfer y blaid hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig o enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa (os yw'n wahanol) yr asiant etholiadol cenedlaethol erbyn **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**.Yn ymarferol, swyddogion Swyddfa'r Cabinet fydd angen eu hysbysu yn y cyfeiriad canlynol:

Electoral Administration Team
Elections and Parliament Division
Cabinet Office
4th Floor, Orange Zone
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

neu

elections@cabinetoffice.gov.uk

1.69 Gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ddarparu ffurflen ddatganiad, neu gallech ddefnyddio'r ffurflen datgan asiant etholiadol a ddarperir gan y Comisiwn.

1.70 Mae'n rhaid i gyfeiriad swyddfa'r asiant etholiadol cenedlaethol fod yn y DU. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi manylion asiantiaid etholiadol cenedlaethol ar gyfer pob plaid sydd â rhestrau o ymgeiswyr mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol.

1.71 Gellir dirymu penodiad asiant etholiadol cenedlaethol. Gall y Swyddog Enwebu wneud hyn ar unrhyw bryd drwy hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol. Gall y Swyddog Enwebu hefyd ddirymu eu penodiad eu hun fel asiant etholiadol cenedlaethol.

1.72 Pan fo asiant etholiadol cenedlaethol yn marw, neu fod eu penodiad yn cael ei ddirymu, mae'n rhaid gwneud penodiad newydd. Yn achos dirymu penodiad, mae'n rhaid darparu enw,

cyfeiriad, a chyfeiriad swyddfa (os yw'n wahanol) yr asiant etholiadol cenedlaethol newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

1.73 Ni all asiant etholiadol cenedlaethol ymddiswyddo o'u swydd ac mae'n rhaid iddynt gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd oni ddi-rymir y penodiad fel y nodir uchod.

1.74 Os na phenodir asiant etholiadol cenedlaethol erbyn 4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr), tybir bod y Swyddog Enwebu cofrestredig wedi penodi eu hun yn asiant etholiadol cenedlaethol.

Pleidiau sy'n sefyll mewn un rhanbarth etholiadol yn unig

1.75 Os yw plaid wleidyddol gofrestredig yn sefyll mewn un rhanbarth etholiadol yn unig, mae'n rhaid penodi asiant etholiadol. Yr asiant etholiadol yw'r person sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am yr ymgyrch etholiadol, heblaw am reolaeth ariannol yr ymgyrch, sef cyfrifoldeb trysorydd y blaid/swyddog ymgyrchoedd cofrestredig.

Sut caiff asiantiaid etholiadol eu penodi?

1.76 Mae'n rhaid datgan enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa (os yw'n wahanol) yr asiant i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer y rhanbarth etholiadol hwnnw erbyn **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**.

1.77 Mae'n rhaid i gyfeiriad y swyddfa fod yn y DU, neu yn etholiad yn rhanbarth De-orllewin Lloegr, yn y DU neu Gibraltar. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyhoeddi manylion yr asiant etholiadol yn y rhanbarth etholiadol.

1.78 Os nad y Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid yw'r asiant etholiadol a benodir, mae'n rhaid i'r datganiad gael ei wneud gan y Swyddog Enwebu neu ar ei ran ac wedi'i lofnodi gan yr asiant etholiadol, neu gyda datganiad ysgrifenedig yn datgan derbyn hyn wedi'i lofnodi gan yr asiant etholiadol yn cydfynd ag ef.

1.79 Gellir dirymu penodiad asiant etholiadol. Gall y Swyddog Enwebu wneud hyn ar unrhyw bryd drwy hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Gall y Swyddog Enwebu hefyd ddirymu eu penodiad eu hun fel asiant etholiadol.

1.80 Pan fo asiant etholiadol yn marw, neu fod eu penodiad yn cael ei ddirymu, mae'n rhaid gwneud penodiad newydd. Yn achos dirymu penodiad, mae'n rhaid darparu enw, cyfeiriad, a chyfeiriad swyddfa (os yw'n wahanol) yr asiant etholiadol newydd i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.81 Ni all asiant etholiadol ymddiswyddo o'u swydd ac mae'n rhaid iddynt gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd oni ddi-rymir y penodiad fel y nodir uchod.

1.82 Os na phenodir asiant etholiadol erbyn **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**, tybir bod y Swyddog Enwebu cofrestredig wedi penodi eu hun yn asiant etholiadol. Gellir dirymu'r penodiad tybiedig a phenodi person gwahanol fel y nodir uchod.

Is-asiantiaid

1.83 Gall asiant etholiadol benodi dirprwyon, sef is-asiantiaid, i weithredu ar eu rhan.

1.84 Yn achos plaid sy'n sefyll mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol, gellir penodi un is-asiant ar gyfer rhanbarth etholiadol cyfan, yn ogystal â (neu yn hytrach na) phenodi un is-asiant ar gyfer rhanbarth etholiadol cyfan, gellir penodi un is-asiant ar gyfer unrhyw ran o'r un rhanbarth etholiadol, e.e. ar gyfer un ardal awdurdod lleol.

1.85 Yn achos plaid sy'n sefyll mewn un rhanbarth etholiadol, gellir hefyd penodi is-asiantiaid ar gyfer rhan benodol o ranbarth etholiadol.

1.86 Er gall mwy nag un is-asiant gael eu penodi ar lefel isranbarthol, ni all y rhannau y maent wedi'u penodi ar eu cyfer orgyffwrdd.

1.87 Mae'n rhaid i gyfeiriad swyddfa is-asiant fod yn y DU, neu yn achos plaid sy'n sefyll mewn etholiad yn rhanbarth De-orllewin Lloegr, yn y DU neu Gibraltar.

1.88 Gall is-asiant wneud unrhyw beth y mae hawl gan yr asiant etholiadol wneud yn yr ardal y maent wedi'u penodi.

1.89 Mae'n rhaid i'r asiant etholiadol, asiant etholiadol cenedlaethol neu berson a awdurdodwyd ganddynt ddatgan enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa pob is-asiant a'r ardal y maent wedi'u penodi iddi i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ysgrifenedig erbyn **16 Mai 2019**. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn darparu ffurflen i chi ei defnyddio. Neu, gallwch ddefnyddio'r ffurflen a gynhwysir at y diben hwn ym mhecyn enwebu'r Comisiwn.

1.90 Gall asiant etholiadol, asiant etholiadol cenedlaethol neu berson a awdurdodwyd ganddynt ddirymu penodiad unrhyw is-asiant ar unrhyw bryd a gellir penodi is-asiant arall yn eu lle. Os penodir unrhyw is-asiant yn eu lle, rhaid i'r asiant etholiadol, asiant etholiadol cenedlaethol neu berson awdurdodedig datgan enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa ac ardal penodi'r is-asiant newydd yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

Penodi asiantiaid pleidleisio post, pleidleisio a'r cyfrif

1.91 Gellir penodi asiantiaid i fynd i'r digwyddiad agor pleidleisiau post, y bleidlais a'r gwirio a'r cyfrif. Hefyd, gellir dynodi un o'r asiantiaid y cyfrif ar gyfer pob plaid gofrestredig neu ymgeisydd unigol i ofyn am unrhyw ail-gyfrif. Mae'n rhaid gwneud dynodiadau o'r fath ar yr un pryd ag y penodir asiant cyfrif.

Pwy all fod yn asiant pleidleisio post, pleidleisio a'r cyfrif?

1.92 Gall unrhyw un, heblaw'r rheiny a restrir ym mharagraff **1.62**, gael eu penodi fel asiant pleidleisio post, pleidleisio neu'r cyfrif. Gall ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol, yn ogystal ag unrhyw is-asiantiaid, wneud neu gynorthwyo i wneud unrhyw beth y mae gan asiant pleidleisio neu'r cyfrif hawl gwneud. Fodd bynnag, mae rhai achosion lle mae gan is-asiant hawl i

fynd iddynt yn absenoldeb asiant etholiadol yn unig. Mae gwybodaeth ar fynd i ddigwyddiadau etholiadol, beth gall asiantiaid wneud a beth na allant wneud a beth allant ddisgwyl gweld mewn sesiynau agor pleidleisio post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif, i gyd yn Rhan 5: Eich hawl i fynd i ddigwyddiadau etholiadol allweddol.

Pwy all wneud y penodiadau?

1.93 Gall asiantiaid etholiadol, is-asiantiaid neu'r rheiny a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan asiant etholiadol neu is-asiant i wneud y penodiadau ar eu rhan benodi asiantiaid pleidleisio a chyfrif.

1.94 Gall asiantiaid etholiadol ac is-asiantiaid hefyd benodi asiantiaid pleidleisio post.

Faint o asiantiaid gellir eu penodi?

1.95 Gall unrhyw nifer o asiantiaid pleidleisio gael eu penodi i fynd i bob gorsaf bleidleisio, ond dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd neu blaid sy'n sefyll yn yr etholiad gall fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw bryd. Gall asiant pleidleisio gael ei benodi i fynd i nifer o orsafoedd pleidleisio.

1.96 Bydd pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn dweud wrthych chi a/neu'r Swyddog Enwebu neu berson awdurdodedig beth yw'r mwyafswm o asiantiaid pleidleisio post a chyfrif y gellir eu penodi, fydd yr un peth ar gyfer pob ymgeisydd unigol a phlaid sy'n sefyll yn yr etholiad.

Rhoi hysbysiad o benodiad

1.97 Mae'n rhaid rhoi hysbysiad o benodiad yr asiantiaid hyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol. Mae'n rhaid i bob hysbysiad gynnwys enwau a chyfeiriadau'r bobl a benodwyd. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn darparu'r ffurflenni perthnasol ar gyfer hyn, neu gallwch ddod o hyd i'r ffurflenni i roi hysbysiad o benodiad asiantiaid pleidleisio post, pleidleisio a chyfrif ar ein gwefan.

1.98 Bydd y dyddiad cau ar gyfer rhoi hysbysiad penodi'r asiantiaid hyn yn dibynnu ar y broses maent yn mynd iddi.

Dylid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o asiantiaid pleidleisio a chyfrif heb fod yn hwyrach na **16 Mai 2019**. Fodd bynnag, dim ond erbyn yr amser a benodir ar gyfer agor pleidleisiau post y maent am fynd iddo y mae angen i'r hysbysiad o benodi asiantiaid pleidleisio post gael ei gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn rhoi o leiaf 48 awr o hysbysiad yn ysgrifenedig i bob asiant etholiadol a, lle mae is-asiantiaid wedi'u penodi, pob is-asiant, cyn cychwyn arfaethedig pob sesiwn agor pleidleisiau post.

Beth sy'n digwydd os yw asiant yn marw, neu ddim yn gallu gweithredu?

1.99 Os yw asiant cyfrif neu bleidleisio yn marw neu ddim yn gallu gweithredu, bydd y person a wnaeth y penodiad yn gallu penodi asiant arall yn eu lle, ac os felly, mae'n rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o enw a chyfeiriad yr asiant a benodir i'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol. Mae'n rhaid hysbysu am y penodiadau o dan yr amgylchiadau hyn heb oedi. Os yw asiant pleidleisio post yn marw neu ddim yn gallu gweithredu, bydd yr asiant etholiadol yn gallu penodi asiant arall yn eu lle, ac os felly, mae'n rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o enw a chyfeiriad yr asiant a benodir i'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol.

Ymgeisydd yn marw

1.100 Nid yw etholiad Senedd Ewrop yn cael ei ohirio os yw ymgeisydd yn marw, os ydynt yn ymgeisydd ar restr plaid gofrestredig neu'n ymgeisydd unigol. Mewn achos o'r fath, bydd y Swyddog Llywyddu ymhob gorsaf bleidleisio yn gosod hysbysiad yn y bythau pleidleisio o farwolaeth yr ymgeisydd.

22

Gwybodaeth atodol

Enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin

1.101 Os ys ymgeisydd yn defnyddio enw arall i'w henw go iawn yn gyffredinol, gallant ofyn i'w henw(au) a ddefnyddir yn gyffredin i gael eu defnyddio yn hytrach na'u henw go iawn. Er enghraifft, efallai fod pobl yn eich adnabod fel 'Andy', yn hytrach na'ch enw cyntaf llawn sef 'Andrew'. Yn yr achos hwnnw, gallwch ysgrifennu 'Andy' yn y blwch enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin ar y papur enwebu, os byddai'n well gyda chi i'r enw yna ymddangos ar y papur pleidleisio.

1.102 Fodd bynnag ni allwch ddefnyddio'ch enw cyntaf fel enw a ddefnyddir yn gyffredin fel mai dim ond eich enw cyntaf a'ch cyfenw sy'n ymddangos ar y papur pleidleisio, ac felly'n eithrio eich enw canol. Mae'r ddeddfwriaeth yn glir mai enw a ddefnyddir yn gyffredin yw un sy'n wahanol o unrhyw enw ragenw neu gyfenw arall. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio rhagenw yn ei ffurf wreiddiol fel enw a ddefnyddir yn gyffredin. Os ydych am ddefnyddio rhagenw a/neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, yna mae'n rhaid i'r rhain fod yn wahanol i'ch enw llawn fel y mae'n ymddangos ar y ffurflen enwebu. Er enghraifft yn achos Andrew John Smith, ni allai ddefnyddio Andrew Smith na John Smith fel ei enw a ddefnyddir yn gyffredin, er byddai'n gallu defnyddio Andy Smith (os caiff ei adnabod fel Andy yn gyffredin).

1.103 Gallwch wneud cais i ddefnyddio enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin, cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, neu'r ddau.

1.104 Gallwch hefyd ddefnyddio'ch blaenlythrennau fen rhan o'ch enw a ddefnyddir yn gyffredin, os cewch eich adnabod ganddynt.

1.105 Bydd enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin wedyn ymddangos ar:

- y datganiad o bleidiau a phersonau a enwebwyd, a
- y papur pleidleisio

1.106 Ni fydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn caniatáu enwau a ddefnyddir yn gyffredin sy'n debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu sy'n anweddus neu'n sarhaus. Os nad yw'r enw(au) yn rhai a ganiateir, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ysgrifennu at yr ymgeisydd a'r blaid y mae enw'r ymgeisydd ar eu rhestr yn nodi'r rheswm dros wrthod. Yn yr achosion hynny, bydd enw go-iawn yr ymgeisydd yn cael ei ddefnyddio yn lle.

1.107 Mae'n drosedd rhoi datganiad ffug ar y papurau enwebu. Felly, os yw'r ymgeisydd yn dewis darparu enw a ddefnyddir yn gyffredin, mae'n rhaid iddynt sicrhau ei fod yn enw cyntaf neu'n gyfenw y maent yn ei ddefnyddio.

Ymgeiswyr sy'n ddinasyddion yr UE

1.108 Mae'n rhaid i ddinesydd yr UE (heblaw dinesydd Prydeinig, Gwyddelig, dinesydd Malta neu Cyprus) sydd am sefyll mewn etholiad ar ran plaid gofrestredig wneud datganiad ynghylch eu cymhwysedd i sefyll mewn etholiad.

1.109 Mae'n rhaid i'r datganiad gynnwys manylion personol yr ymgeisydd fel a ganlyn:

- enw
- cenedligrwydd
- dyddiad a man geni
- cyfeiriad diwethaf yn yr Aelod-wladwriaeth yr UE y maent yn genhedlig ohoni

- cyfeiriad cartref yn y DU neu Gibraltar
- os ydynt, neu eu bod ar unrhyw bryd wedi'u cofrestru fel etholwr mewn ardal neu etholaeth yn yr Aelod-wladwriaeth yr UE y maent yn genhedlig ohoni, enw'r ardal neu'r etholaeth yr oedd yr ymgeisydd, cyn belled â'u bod yn gwybod, wedi'u cofrestru ddiwethaf.

1.110 Mae'n rhaid i ddatganiad yr ymgeisydd hefyd nodi

- nad ydynt yn sefyll fel ymgeisydd i'r un etholiad Senedd Ewrop mewn unrhyw aelod-wladwriaeth arall yr UE, ac
- nad ydynt wedi'u difeddiannu o'u hawl i sefyll fel ymgeisydd yn yr aelod-wladwriaeth y maent yn genhedlig ohoni trwy benderfyniad barnwrol neu weinyddol

Cael gwybodaeth gefnogol gan yr Aelod-wladwriaeth yr UE yr ydych yn genhedlig ohoni

1.111 Rhaid cadarnhau eich datganiad nad ydych wedi'ch gwahardd drwy wybodaeth a ddarparwyd gan yr Aelod-wladwriaeth yr UE yr ydych yn genhedlig ohoni. Gall Llywodraeth y DU gael gafael ar y wybodaeth hon ar eich rhan ai ddarparu i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Er mwyn i Lywodraeth y DU wneud hyn men da bryd ar gyfer yr etholiad, mae'n rhaid i'ch datganiad gael ei gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn **4pm ar 16 Ebrill 2019 (4pm ar 15 Ebrill yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr).** Mae'n rhaid mai chi sy'n gwneud y datganiad ond gellir ei ddanfon at y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gan rywun arall, cyn belled ag y caiff ei ddanfon yn bersonol. Nid oes angen danfon y datganiad yr un pryd â'r papurau enwebu, a'r dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno o hyd yw **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**.

Dylid cyflwyno eich datganiad cyn gynted â phosibl. Does dim angen i chi aros hyd nes i hysbysiad o etholiad gael ei gyhoeddi (erbyn 15 Ebrill 2019 (12 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)) cyn cysylltu gyda'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a gwneud eich datganiad.

1.112 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn pasio'r datganiad i'r Ysgrifennydd Gwladol, fydd yna'n cysylltu â'r Aelod-wladwriaeth yr UE yr ydych yn genhedlig ohoni ac yn

darparu'r wybodaeth y maent yn ei dderbyn yn ôl i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.113 Os yw'r Aelod-wladwriaeth yr UE yr ydych yn genhedlig ohoni yn darparu gwybodaeth eich bod wedi'ch gwahardd cyn i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gyhoeddi'r datganiad o bleidiau a phersonau a enwebwyd, bydd eich enw'n cael ei ddileu o restr ymgeiswyr y blaid. Nid yw hyn yn effeithio ar enwebiad y blaid, na'r ymgeiswyr eraill sydd wedi'u henwebu ar restr y blaid.

1.114 Os yw'r Aelod-wladwriaeth yr UE perthnasol yn methu ag ymateb cyn i'r datganiad o bleidiau a phersonau a enwebwyd gael ei gyhoeddi, nid yw hyn yn effeithio ar eich ymgeisyddiaeth chi na'r blaid - cyn belled â'ch bod chi ar blaid fel arall wedi'ch enwebu'n ddilys - byddwch yn parhau i fod ar restr ymgeiswyr y blaid a bydd eich enw yn cael ei gynnwys ar y papur pleidleisio.

1.115 Fodd bynnag os derbynnir gwybodaeth gan yr Aelod-wladwriaeth yr UE perthnasol ar ôl cyhoeddi'r datganiad o bleidiau a phersonau a enwebwyd, sy'n dangos eich bod wedi'ch gwahardd rhag sefyll mewn etholiad, ac felly bod eich enw wedi'i gynnwys ar y papur pleidleisio, bydd yn rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol eich hepgor o restr ymgeiswyr y blaid wrth ddyrannu seddi wrth gyfrifo'r canlyniad.

1.116 Gallwch, os oes well gennych, neu os ydych yn colli'r dyddiad cau (4pm ar 16 Ebrill 2019, 4pm ar 15 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol y De-orllewin), gael cadarnhad eich hun gan yr Aelod-wladwriaeth yr UE yr ydych yn genhedlig ohoni, nad ydych wedi'ch gwahardd. Yn yr achos hwn, i'ch enwebiad fod yn ddilys, mae'n rhaid i chi (neu rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt), ddosbarthu, yn bersonol:

- eich datganiad
- y wybodaeth a ddarparwyd i chi gan y pwynt cyswllt dynodedig yn yr Aelod-wladwriaeth yr UE yr ydych yn genhedlig ohoni yn nodi nad ydych wedi'ch gwahardd rhag sefyll mewn etholiad o ganlyniad i benderfyniad barnwrol neu weinyddol, neu nad oes gwaharddiad o'r fath yn hysbys

erbyn y dyddiad cau enwebu o **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**. Gellir cyflwyno'r dogfennau hyn ar wahân.

1.117 Gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ddarparu manylion cyswllt ar gyfer Aelod-Wladwriaethau yr UE.